**Ymateb S4C i Ymgynghoriad Ofcom:**

**“Dyfodol Plwraliaeth y Cyfryngau yn y DU**

**Gan gynnwys ymgynghoriad Ofcom ar Adolygu'r Rheolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau”**

*10 Awst 2021*

***Plwraliaeth newyddion***


Mae dogfen ymgynghorol Ofcom yn codi nifer o gwestiynau o bwys am blwraliaeth newyddion a materion eraill. Rydym wedi cyfyngu ein hymateb i faterion sy’n effeithio ar S4C a gwasanaethau newyddion Cymraeg yn benodol, yn hytrach nag ymateb ar faterion sy’n gyffredin i’r diwydiant ehangach.

Fel darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM), mae S4C yn darparu gwasanaeth Newyddion S4C yn llinol ac yn ddigidol. Mae’n cynnig gwasanaeth newyddion teledu cynhwysfawr, sef rhaglenni a bwletinau newyddion dyddiol, wedi eu cynhyrchu gan BBC Cymru, sydd ar gael ar deledu llinol ac ar wasanaethau dal-i-fyny am gyfnod byr.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod ein gwasanaeth newyddion teledu yn bennaf yn denu gwylwyr hŷn ac nad yw pobl iau yn dueddol o droi at y teledu am eu newyddion. Mae‘r ymchwil yn dangos fod 86% o wylwyr gwasanaeth newyddion teledu S4C yn 65+ oed. Er mwyn cynnig gwasanaeth newyddion Cymraeg i gynulleidfaoedd iau a rheini nad ydynt yn troi at y teledu fel eu prif ffynhonnell o newyddion, ym mis Ebrill 2021 lansiodd S4C wasanaeth newyddion digidol Cymraeg. Mae’r gwasanaeth yn pecynnu newyddion ar ffurf clipiau fideo ffurf-fer ar gyfryngau cymdeithasol, ap penodol a gwefan Newyddion S4C, gan gynnig ‘newyddion yn torri’ ar draws y dydd.

Mae’r gwasanaeth yn sicrhau plwraliaeth o ffynonellau newyddion yn ddigidol gyda chynnwys sy’n cael ei gynhyrchu gan S4C, Golwg 360, ITV a’r BBC, a linciau i storïau gan ffynonellau dibynadwy eraill. Dyma'r tro cyntaf i wasanaeth newyddion Cymraeg gyhoeddi a churadu cynnwys gan sawl ffynhonnell wahanol, gan gynnig gwasanaeth newyddion cynhwysfawr mewn un lle.

Ap Newyddion S4C:




Rydym eisoes wedi ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* ac yn croesawu argymhellion Ofcom i ddiweddaru deddfwriaeth er mwyn rhoi amlygrwydd i wasanaethau ar-alw PSMs ar blatfformau teledu cysylltiedig.

Hoffwn gynnig y sylwadau canlynol yng nghyd-destun ein gwasanaeth newyddion digidol ar blatfformau eraill, ac yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol:

- Mae Facebook yn llwyfan pwysig sy’n cynnig cyfle inni gyrraedd cynulleidfa newydd. Mae 34% o bobol yng Nghymru yn cael eu newyddion drwy Facebook yn ôl Adroddiad Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021. Ond ar yr un pryd mae’n gallu ni i gyrraedd nhw yn gwbwl ddibynnol ar yr amlygrwydd mae’r algorithm yn mynd i roi i gynnwys Newyddion S4C, ac mae peryg iddo gael ei foddi gan gynnwys o ffynonellau mwy poblogaidd yn yr iaith Saesneg.

  Er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael mynediad i wasanaeth newyddion Cymraeg yn ogystal â phlwraliaeth newyddion, hoffem alw ar Ofcom i ystyried gosod gofynion ar y cwmnïau technoleg mawr, a llwyfannau megis Facebook News a Google News, i roi amlygrwydd i gynnwys PSM ac fel rhan o hynny i gynnwys newyddion Cymraeg.

- Mewn oes pan fo gofid am newyddion ffug, mae’n bwysig bod newyddion digidol sy’n cael ei gynhyrchu gan frandiau dibynadwy a chyfarwydd fel Newyddion S4C yn cael blaenoriaeth dros ffynonellau llai dibynadwy. Ar hyn o bryd, mae’r ffordd mae’r algorithmau yn gweithio yn niwlog i gynhyrchwyr newyddion, ac os cânt eu gyrru gan niferoedd cliciau (er enghraifft), dyw hynny ddim yn mynd i ffafrio cynnwys Cymraeg. Wrth i Ofcom ystyried newidiadau rheoleiddio i’r dyfodol, gofynnwn am fesurau i sicrhau bo’r cwmnïau technoleg mawr yn defnyddio algorithmau i hyrwyddo cynnwys newyddion PSM dibynadwy, gan gynnwys newyddion yn y Gymraeg.